# Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Caernarfon




## Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Bwriad y prosiect ‘Ardal Ni 2035’ ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy’n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy’n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.

**1.3** Fel rhan gyntaf i’r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- Beth sy’n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

**1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi’r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a’r prif grwpiau lleol.

**1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **8** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Caernarfon.

**1.6** Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy’r gwasanaeth ieuenctid. Mae crynodeb o’r ymatebion i’r cwestiynau yn **atodiad 3.**

DRAFT

## 2. Beth sy’n dda am eich ardal?

Dyma’r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Caernarfon yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Yr iaith / diwylliant Gymraeg | 8 |
| Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | 5 |
| Treftadaeth a hanes yr ardal | 4 |
| Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai | 4 |
| Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol | 4 |
| Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | 4 |
| Cyfleusterau hamdden e.e. Canolfan, Sinema, Llyfrgell | 3 |
| Cynnyrch a busnesau lleol | 3 |
| Gwirfoddolwyr | 3 |
| Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir | 1 |
| Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau | 1 |
| Ardal saff a diogel | 1 |
| Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr | 1 |
| Gweithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc | 1 |
| Cyfleoedd swyddi a hunangyflogaeth | 1 |
| Darpariaeth addysg ac ysgolion da | 1 |
| Cyfleoedd sy’n cael eu cynnig gan Antur Waunfawr | 1 |

DRAFT

## 3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Caernarfon yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal | 5 |
| Diffyg darpariaeth a  gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuenctid | 3 |
| Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig | 3 |
| Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau | 3 |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol | 3 |
| Angen cefnogaeth / buddsoddiad i fusnesau canol y dref | 3 |
| Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser | 3 |
| Tlodi yn yr ardal | 2 |
| Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | 2 |
| Problemau yn ymwneud a pharcio | 2 |
| Rhaniad o fewn yr ardal | 2 |
| Maes Caernarfon angen ei newid | 2 |
| Agweddau / damcaniaethau negyddol pobl am yr ardal / pobl | 2 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol | 2 |
| Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal | 2 |
| Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol | 2 |
| Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal | 2 |
| Gormod o grwpiau a dryswch ynglŷn â rôl pawb | 1 |
| Pawb ddim yn ymwneud a'r gymuned | 1 |
| Diffyg presenoldeb yr heddlu | 1 |
| Dim digon o dai cymdeithasol | 1 |
| Rhannau o'r dref angen buddsoddiad | 1 |
| Elusennau ddim yn cael clod | 1 |
| Diffyg gwefan gymunedol | 1 |
| Pobl ddim yn rhan o'r gymuned | 1 |

DRAFT

## 4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Caernarfon am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Cynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio a cherdded | 5 |
| Gwella edrychiad yr ardal - glan a thaclus, mwy o finiau, blodau gwyllt | 4 |
| Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru | 4 |
| Gwella adeiladau cymunedol a neuaddau | 3 |
| Cymryd mantais yn llawn o dwristiaeth er budd economi leol | 3 |
| Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 3 |
| Cefnogi busnesau lleol i sefydlu a ffynnu | 3 |
| Rhagor o adnoddau iechyd a llesiant | 3 |
| Rhagor o gyfleusterau a gweithgareddau chwaraeon / cadw'n heini | 2 |
| Mwy o ddigwyddiadau cymunedol | 2 |
| Llai o draffig | 2 |
| Creu gwaith a swyddi gwerth uchel | 2 |
| Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc | 2 |
| Gwell cyfathrebu a chydweithio fewn y gymuned | 2 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol | 2 |
| Pobl ifanc i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu cymuned e.e. drwy'r pwyllgorau | 1 |
| Mwy o Heddlu o gwmpas i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol | 1 |
| Angen gwneud mwy o etifeddiaeth / treftadaeth leol | 1 |
| 'Hybiau' gweithio mewn trefi fel bod pobl ddim yn gorfod teithio'n bell i swyddfa | 1 |
| Ad fywiad o ddiwydiant pysgota | 1 |
| Gwell perthynas rhwng Cyngor Gwynedd a Mentrau / grwpiau lleol | 1 |
| Hwb cymunedol i gyfeirio pobl at wasanaeth addas | 1 |
| Mwy o gefnogaeth i fentrau lleol | 1 |
| Cymunedau llai | 1 |

DRAFT

## 5. Cwestiynau ychwanegol

**5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?**

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Nalgylch Caernarfon:

- Cyngor Gwynedd
- Rhieni plant ysgolion meithrin y Dref
- Rhieni a disgyblion ysgolion y Dref
- Capeli ac Eglwysi
- Grwpiau o ddiddordeb amrywiol e.e. Gymdeithas Ddinesig
- Elusennau sydd yn gweithio yn y Dref
- CADW
- Galeri
- Yr Urdd a sefydliadau ieuenctid eraill
- Ysgolion a phlant
- Cynghorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Perchnogion siopau a busnesau lleol
- Mantell Gwynedd
- GISDA
- Clybiau Chwaraeon
- Pobl Caernarfon
- HWB Caernarfon
- Mentrau Cymdeithasol
- Cymdeithasau tai
- Grwpiau cymunedol/gwirfoddol
- Busnesau preifat

**5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?**

Dim enghraifft wedi ei nodi yn y sgyrsiau.

**5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Nalgylch Caernarfon:**

- Angen bod yn glir o be yn union ydi gweledigaeth a chynllun nesaf Caernarfon. Mae cynllun datblygu'r Maes, Datblygu Galeri ac ardal y Doc ac yna ardal Cei Llechi wedi eu cyflawni. Rŵan angen cynllun a gweledigaeth ar gyfer y datblygiad nesaf.
- Angen sicrhau bod y gwaith yma yn berthnasol i'r gymuned gyfan a bod cyfle i bawb o fewn yr ardal cael y cyfle i leisio eu barn
- Ffordd osgoi wedi ei godi fel unrhyw fater arall.

DRAFT